**Cwm Taf Morgannwg**
**Grŵp Cymorth Cydweithredol Tai Rhanbarthol (GCCTRh)**
**2 Mai 2023** – (Teams Microsoft)
**Cofnodion Ch1**

| **Yn Bresennol** | | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|---|
| Y Cyng Geraint Thomas (Cadeirydd) | GT | CBSMT |
| Y Cyng Bob Harris | BG | CBSRhCT |
| Cheryl Emery | CE | Adran Tai CBSRhCT |
| Susan Preece | SP | Adran Tai CBSRhCT |
| Hannah Mills | HM | Adran Tai CBSMT |
| Suzanne Stephens | SS | Adran Tai CBSMT |
| Ryan Jones | RJ | Adran Tai CBSPYBAO |
| Zoe Leonard | ZL | Adran Tai CBSPYBAO |
| Louise Davies | LD | Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd |
| Nicola Eynon | NE | Cynrychiolydd Tai y BPRh |
| Emma Richards | ER | Cynrychiolydd y Gwasanaeth Prawf |
| Christa Bonham-Griffiths | CBG | Cynrychiolydd Cyfiawnder Ieuenctid |
| Lorraine Griffiths | LG | Cynrychiolydd Darparwr Cymorth |
| Kelly Francis | KF | Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol |
| **Aelodau Gwadd** | | |
| Rachel Thomas | RT | Gwasanaeth Allgymorth Tai - BIP CTM |
| Peter Rayner | PR | Gwasanaeth Allgymorth Tai - CBSRhCT |

| | |
|---|---|
| **1** | **<u>Croeso a Datgan Buddiannau</u>:**<br><br><u>Ymddiheuriadau</u><br>Deborah Evans, Luke Takeuchi, Jessica Ware, Emma Howells, Claire Beynon, Sarah O'Keefe, Angharad Metcalfe, y Cyng Rhys Goode, Melinda Powell, Rachel Gronow, Rachel Honey-Jones. |
| **2** | **<u>Cofnodion y Cyfarfod a'r Camau Gweithredu Blaenorol</u>:**<br><br><u>Cofnodion</u>: Cytunwyd eu bod yn gofnod cywir o'r cyfarfod.<br><br><u>Camau Gweithredu</u>: Cadarnhaodd HM fod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau. |
| **3** | **<u>CTM – Y Diweddaraf ynghylch y Prosiectau Rhanbarthol</u>:** |
| **3.1** | **<u>Prosiectau Ymchwilio/Cwmpasu</u>**<br><br>Ariannwyd dau brosiect ymchwil y llynedd:<br><br>3.1a Ni fydd y **Peilot BME** a gyflwynwyd gan BAWSO yn parhau yn ystod 23/24. Ychydig iawn o bobl a fanteisiodd ar y Cynllun Peilot cychwynnol. Estynnwyd y Prosiect oherwydd na chafodd y 2 swydd gymorth mo'u llenwi yn ystod yr holl gyfnod, a phrin oedd y nifer a fanteisiodd ar y gwasanaeth yn ystod y cyfnod estynedig. At hynny, mynegodd y swyddogion eu rhwystredigaeth y gallai'r |

| | |
|---|---|
| | ymgysylltiad gwael hwn fod yn ganlyniad i broblemau staffio yn hytrach nag yn adlewyrchiad cywir o angen. Bydd yr adroddiad ysgrifenedig yn cael ei gadw i lywio gwaith comisiynu'r dyfodol ac mae'n bosibl y caiff ei ailystyried bryd hynny.<br><br>**3.1b Prosiect Cwmpasu LHDTC+ CTM** – Eglurodd HM fod angen i'r Grŵp ystyried y Prosiect hwn ymhellach. Cred SP fod y Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol diwethaf (Kristen Cooper) wedi dechrau Cynllun Gweithredu ar gyfer y Prosiect hwn. Bydd HM yn gwirio'r Odrive i weld yr hyn sydd wedi'i ddogfennu hyd yma.<br><br>**Cam Gweithredu:**<br>KF i weld pa gynnydd sydd wedi'i wneud gyda'r Prosiect LHDTC+ a dod â'r eitem hon yn ôl i'r Grŵp. Caiff y Cynllun Gweithredu LHDTC+ ei ddosbarthu cyn y GCCTRh nesaf. |
| 3.2 | **<u>Prosiect Arbenigol ar Dai, Iechyd a Chamddefnyddio Sylweddau</u>:**<br><br>Gweler yr atodiad a gyflwynwyd gan Rachel Thomas a Peter Rayner o'r Gwasanaeth Allgymorth Tai.<br><br>Yn 2020, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer Gwasanaeth Allgymorth Arbenigol Rhanbarthol i unigolion digartref a feddai ar anghenion cymhleth. Yn 2021, dechreuodd y Prosiect gyda dim ond 3 aelod staff a 23 o atgyfeiriadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth, ond mae wedi cynyddu'n sylweddol ers hynny, ac erbyn hyn mae'n cynnwys 18 aelod staff a 501 o atgyfeiriadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth, gan brofi'i lwyddiant mawr fel prosiect partneriaeth. Mae'r nifer sy'n manteisio ar y Prosiect wedi'i wasgaru'n gyfartal ledled Cwm Taf Morgannwg wrth i'r prosiect barhau i ganolbwyntio ar yr unigolyn a meithrin agwedd gyfannol.<br><br>Mae dyfodol y Prosiect a'i ehangiad yn cynnwys recriwtio Uwch-ymarferydd Gwaith Cymdeithasol a Chynorthwyydd Meddygol BIP, yn ogystal ag ymestyn i Letyau â Chymorth a Phrosiectau Tai yn Gyntaf.<br><br>Cydnabu CE fod y Prosiect hwn wedi ymgymryd â siwrnai enfawr ac roedd am ddiolch yn benodol i aelodau'r Tîm am yr holl waith caled a gyflawnwyd ganddynt.<br><br>Ymholodd ER ynghylch y llwybr i'r Gwasanaeth Prawf a chadarnhaodd RT ei fod yn rhedeg trwy'r Adran Tai, a thynnodd sylw at bwysigrwydd asesiadau risg. Gofynnodd ER a all y Gwasanaeth Prawf dderbyn yr un cyflwyniad a bydd yn cysylltu â RT yn uniongyrchol i drefnu hyn.<br><br>Mynegodd y Cadeirydd ei falchder fod y Prosiect yn cael ei gyflawni'n gyfartal ar draws CTM ac yn cynnwys agwedd ataliol. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ddefnyddiol i'r Heddlu fod yn fwy ymwybodol o'r gwasanaeth arbenigol hwn.<br><br>Eglurodd CBG ei bod yn gweithio i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ym Mhen-y-bont ar Ogwr ond ei bod yn fwy na pharod i gymryd yr awenau ar draws CTM ac y byddai'n dda gwneud gwaith cydgysylltiedig gyda'r achosion mwy cymhleth. |
| 3.3 | **<u>Rhaglen Cyflawnwyr Cam-drin Domestig Ranbarthol</u>:**<br><br>Cyfrannodd y tri Awdurdod Lleol CTM at y Rhaglen hon yn 22/23, ond ym Merthyr ychydig a fanteisiodd arni yn ystod y cyfnod peilot. Er bod yr ALl yn gwerthfawrogi gwerth y Rhaglen, nid oes unrhyw GCT ar gael i barhau â hi yn 23/24. Er i'r mater hwn gael ei godi ar lefel weithredol, ni lwyddwyd i ganfod unrhyw ffynhonnell ariannu arall. Yn anffodus, ni fydd CBSMT yn gallu cyfrannu at y Rhaglen ar gyfer 23/24.<br><br>Bydd LD yn codi'r mater hwn yn y Grŵp VAWDA nesaf. |

| | |
|---|---|
| | Mynegodd y Cadeirydd ei siom fod CBSMT wedi gorfod rhoi'r gorau i'r Prosiect hwn oherwydd diffyg cyllid a thynnodd sylw at y ffaith fod CBSMT yn talu cyfran gyfartal er ei fod yn Awdurdod llai. |
| 4<br><br><br><br>4.1<br><br><br><br><br><br><br>4.2<br><br><br><br><br><br><br><br><br>4.3 | **<u>Tai/Digartrefedd</u>:**<br><br>Rhoddodd yr Arweinwyr Grantiau Cymorth Tai ddiweddariad byr ar swyddi o fewn yr Awdurdodau Lleol yng Nghwm Taf Morgannwg.<br><br>**CBSPYBAO - ZL:**<br>Ar hyn o bryd, rydyn ni'n edrych i gael Lletyau Dros Dro addas yn hytrach na dibynnu ar Letyau Gwely a Brecwast. Yn sgil hynny, rydyn ni'n gweithio'n agos gyda Landlordiaid Preifat a Chymdeithasau Tai. Mae tendr newydd yn mynd allan y mis hwn er mwyn cyflwyno Tŷ Gwlyb i Ben-y-bont ar Ogwr, a fydd yn rhannol yn Llety Dros Dro ac yn Llety â Chymorth heb unrhyw gyfyngiad ar ba mor hir y gall rhywun aros yno.<br><br>**CBSMT - SS:**<br>Rydyn ni'n dal i fod â chanran uchel o bobl mewn Lletyau Gwely a Brecwast ac nid yw'r galw presennol yn lleihau. Mae ymddygiad yn ymddangos yn broblemus yn y Llety Gwely a Brecwast gan gynnwys sawl achos o gamddefnyddio sylweddau a gorddosio arnynt, yn enwedig pan fydd rhywun yn derbyn ôl-dâl PIP. Caiff Marsh House ei gwblhau erbyn mis Hydref 2023. Mae angen lefel uwch o Letyau â Chymorth ac felly, rydyn ni yn y broses o asesu adeiladau addas. Mae rhai prosiectau a ariennir gan GCT wedi'u datgomisiynu'n ddiweddar a'r cam nesaf yw ceisio ail-dendro'r holl gymorth lle bynnag y bo'r angen.<br><br>**CBSRhCT - CE:**<br>Mae nifer uwch o bobl sengl yn preswylio mewn Lletyau Gwely a Brecwast. Mae'r Cynllun Ailgartrefu Cyflym yn seiliedig ar argaeledd adeiladau a chyllid. Mae Tŷ Abertonllwyd wedi agor ac yn gweithredu'n llwyddiannus. Mae prosiectau gwasgaredig wedi'u gohirio ar hyn o bryd ond gobeithir y ceir cynnydd yn ddiweddarach yn 2023. Rydyn ni'n gweithio gyda Landlordiaid Preifat yn ogystal â'r Prosiect Tai yn Gyntaf a'r Prosiect Cam-drin Domestig. Mae rhai gwasanaethau wedi'u datgomisiynu ond bellach, bydd y Llwybr Person Sengl yn cynnwys Gweithiwr Achos Penodol i barhau â'r ailasesu. Fel bob amser, mae yna brinder lletyau sy'n gweddu'n iawn i rai pobl. |
| 5 | **<u>Diweddariadau'r Partneriaid a'r Rhanddeiliaid</u>:**<br><br>**Diweddariad ar Fforwm Darparwyr Rhanbarthol CTM - LG:**<br>Mae'r cyfarfod nesaf yfory ac wrth symud ymlaen, fe gaiff y cyfarfodydd eu trefnu o amgylch dyddiadau'r GCCTRh sydd wedi'u cadarnhau heddiw. Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf ym mis Ionawr 2023 pryd y trafodwyd yr argyfwng costau byw, yr ymdrechion i gadw a recriwtio staff, ynghyd â'r Ymgyrch Materion Tai gyda Chymorth Cymru. Gofynnwyd i CE godi'r materion ynghylch recriwtio a chadw staff yn Fforwm Darparwyr Rhanbarthol CTM yfory.<br><br>**Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid - CBG:**<br>Estynnwyd y Gwasanaethau Ataliol i Blant Ifanc, sicrhawyd Model Adfer wedi Trawma, a defnyddiwyd Gwasanaethau Cymorth ac Ataliad Cynnar. |

| | | |
|---|---|---|
| 6 | **<u>Blaenoriaethau Rhanbarthol 2022/2023</u>:**<br><br><u>Datganiad Rhanbarthol</u><br>Gofynnodd LD a ellid cydgrynhoi'r blaenoriaethau a chanolbwyntio mwy ar dai.<br><br>**Cam Gweithredu:**<br>KF ac HM i atgyfnerthu'r blaenoriaethau ar y Cynllun Gwaith 23/24.<br><br><u>Rhestr Aelodaeth</u><br>Cytunodd y Grŵp y gallai RT gynrychioli Iechyd Meddwl. At hynny, awgrymodd CBG enw Christel Walters sy'n gweithio gyda phartneriaid Iechyd Meddwl. Awgrymodd LD y dylid cysylltu â Ceri Ford ar gyfer Llais Defnyddwyr Gwasanaeth y Bwrdd Cynllunio Ardal.<br><br>**Camau gweithredu:**<br>KF i gofrestru RT fel aelod a chysylltu â Christel Walters.<br>LG i ystyried a recriwtio cynrychiolydd addas ar gyfer Llais Defnyddwyr y Gwasanaeth. |
| 7 | **<u>UFA</u>:**<br><br>Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben trwy ddiolch i'r Cyng Rhys Lewis am ei waith i'r GCCTRh yn ystod y cyfnod anodd hwn.<br><br>Y cyfarfod nesaf o'r GCCTRh nesaf fydd yr un olaf o dan y Cadeirydd presennol. |
| 8 | **<u>Dyddiadau'r Cyfarfodydd yn 2023/2024</u>:**<br><br>**Ch1 Dydd Mawrth 02 Mai 2023**<br>**Ch2 Dydd Mawrth 18 Gorffennaf 2023**<br>**Ch3 Dydd Mawrth 07 Tachwedd 2023**<br>**Ch4 Dydd Mawrth 06 Chwefror 2024** |